CYNGOR CYMUNED MAWDDWY

**Cofnodion o Gyfarfod o'r Cyngor a gynhaliwyd Nos Fercher y 6ed o Orffennaf 2022 am 8.00yh yn Neuadd Dinas Mawddwy.**

Presennol; Cyng. Catrin Johnson, Rhys Davies, John P Jones, Berwyn Harding, Idris Jones, Wyn Lewis, Lynne Mccrickett, John P Roberts a Huw T Jones (Clerc)

1. Estynwyd groeso cynnes i bawb gan y Cadeirydd Catrin Johnson. Roedd ymddiheuriadau i law gan Cyng Geraint Morgans, Sion Alun Roberts ac Arfon Hughes
2. Aethpwyd ymlaen i groesawu **Dion Roberts, Swyddog Prosiectau Rheoli'n gynaliadwy, Parc Cenedlaethol Eryri** i drafod y byrddau gwybodaeth/dehongli yr ardal. Dywedodd ei fod yn cydweithio gyda grwp o dirfeddiannwyr gyda prosiect SMS yr oedd y Parc Cenedlaethol yn ei redeg. Roedd wedi siarad gyda Arfon Hughes o Gwmni Nod Glas ynglyn a'r byrddau gwybodaeth yn yr ardal, ac y gellid defnyddio'r gyllideb i adnewyddu'r byrddau. Awgrymwyd ychwanegu gwybodaeth am lwybrau (ee defnyddio technoleg y QR codes,) y cod cefn gwlad, y gwaith carbon gyda chynllun SMS, ynghyd a hanes yr ardal Dywedodd ei fod yn agored am syniadau o ran y dyluniad. Dywedwyd ein bod yn son am 5 o fyrddau, sef Mallwyd, Bwlch yr Oerddrws, Aberangell, Llanymawddwy a Bwlch y Groes (roedd un y Llew Coch wedi ei adnewyddu eisoes) Trafodwyd tybed a oedd gormod o wybodaeth arnynt. Pwysleisiwyd mai byrddau gwybodaeth dan ofalaeth a pherchnogaeth y Cyngor Cymuned oedd y rhain.
   Yn ystod y drafodaeth, pwysleisiwyd mai llwybrau cyhoeddus oedd llawer o'r llwybrau, nid rhai Cwmni Nod Glas, ac os oeddynt yn llwybrau drwy ganiatad, yna dylid nodi hynny. Nodwyd hefyd fod o leiaf dau o'r byrddau yn y Llew Coch ar Nos Fercher 22ain Mehefin pan roedd noson wybodaeth gan Cwmni Nod Glas, a mynegwyd siom nad oedd neb wedi son wrth y Cyngor Cymuned am hyn. Yn dilyn trafodaeth bellach, cytunwyd I fynd ymlaen gyda'r awgrymiadau gan Dion mewn egwyddor, a chytunodd Cyng Catrin Johnson i fod yn gyfrifol, a bod angen sgwrs bellach rhwng Cyng Catrin Johnson a Dion. Gwelwyd fod angen dod a'r holl fyrddau at eu gilydd, a bod pawb I'w gweld cyn gwneud penderfyniad terfynol ar y mater yn y cyfarfod nesaf. Dywedodd Cyng John P Roberts hefyd y byddai yn cynorthwyo drwy siarad gyda Cyng Arfon Hughes a'r Parc Cenedlaethol.
   Diolchwyd yn fawr iawn i Dion a gadawodd y cyfarfod.
3. Aethpwyd ymlaen I drafod cofnodion y cyfarfod diwethaf. Dywedodd Cyng John P Roberts ei fod wedi derbyn nodyn gan Cyng Arfon Hughes I godi rhai materion, ond gwelwyd fod rhain yn faterion I'w codi ar ddiwedd y cyfarfod.

   Cadarnhawyd gofnodion y Cyfarfod Blynyddol a gynhaliwyd ar y 25ain o Fai 2022 ar gynnig Idris Jones a'i eilio gan Lynn Mccrickett.

4. **Materion yn codi**

a) **Materion Priffyrdd/Cefnffyrdd** – adroddwyd ymateb i'r holl faterion i Gyngor Gwynedd a godwyd y tro diwethaf, sef y wal ar dop Bwlch y Groes, yr angen am fan troi yn Minllyn a sbwriel ar yr A458. Nid oedd ymateb o'r Uned Cefnffyrdd.
b) **Arwyddion/ Biniau baw cwn** – yn dilyn y drafodaeth yn y cyfarfod diwethaf, adroddodd Cyng Lynn Mccrickett fod y mater mewn llaw, a'I bod yn awyddus I

gael gwybod gan y gymuned lle mae hyn ei angen. Byddai yn rhoi poster I fynny, ac yn adrodd erbyn y tro nesaf. Diolchwyd yn fawr iawn iddi.

c) **Eglwys Llanymawddwy** – adroddwyd yn llawn o gyfarfod ger yr Eglwys ar y 24ain Mehefin pan oedd y Cyng John P Roberts, Sion Alun Roberts a'r Clerc yn bresennol, ynghyd a Alun Charles y Pensaer a chynrychiolydd ar ran yr Eglwys yng Nghymru. Roedd gwybodaeth wedi ei ddanfon I'r holl Gynghorwyr arwahan I roi y cefndir yn llawn – sef bwriad yr Eglwys I drosi yr Eglwys yn anned-dy/llety gwyliau. Er mwyn cael y cefndir, darllenwyd yn llawn e-bost gan y Clerc I'r Eglwys a'r pensaer dyddiedig 13 Rhagfyr 2020 yn amlinellu penderfyniadau y Cyngor ar y pryd, a gwelwyd y byddai rhaid cadw at hyn. Darllenwyd hefyd e-bost gan y Cyng Arfon Hughes yn dwyn sylw i bwysigrwydd y penderfyniad. Yn ystod y cyfarfod ar y 24 Mehefin, roedd pwyslais wedi ei roi gan y Cynghorwyr y byddai rhaid I'r Eglwys ail-wneud y waliau terfyn y fynwent i gyd fel ag y maent ar hyn o bryd, ac na fyddai unrhyw beth yn dod yn ol ar y Cyngor Cymuned mewn unrhyw ffordd, nac unrhyw gostau. Hefyd pwysleisiwyd os byddai y costau cyfreithiol yn fwy na £5000, y byddai rhaid I'r Eglwys dalu hyn.

Roedd e-bost Alun Charles dyddiedig 24ain o Fai yn gofyn am ganiatad y Cyngor Cymuned I gael 'easement' dros dir y fynwent. Penderfynwyd fodd bynnag, ar gynnig Cyng John P Roberts a'I eilio gan Lynn Mccrickett , a gyda chefnogaeth unfrydol, y dylid I ddechrau weld canlyniad yr ymgynghoriad gan yr Eglwys gyda'r gymuned lleol, gan gynnwys cyn aelodau'r Eglwys a pherthnasau y rhai sydd wedi eu claddu yn y fynwent.

d) **Tiroedd comin yr ardal** – nid oedd y Clerc wedi llwyddo I gael copiau o'r gofrestr, er ymholi nifer o weithiau yn Cyngor Gwynedd. Addawodd Cyng J P Roberts gynorthwyo gyda hyn.

e) **Tir ger Dugoed Bach ,** roedd e-bost wedi ei yrru yng nghyswllt presenoldeb carafannau, ac roedd cadarnhad fod y mater wedi ei ddanfon I'r uned cydymffurfio.

f) **Carreg ar dop Bwlch y Groes** – darllenwyd e-bost gan Anwen Pugh yn diolch yn fawr I'r Cyng Catrin Johnson ac Andrew am ail-sgwennu geiriau, ac ail-osod y garreg. Hefyd roedd Cyng Sion Alun Roberts wedi danfon nodyn I ddiolch yn fawr iddynt. Roedd hyn yn cael ei wertrhfawrogi yn fawr.

g) **Problem tai gwag yr ardal** – darllenwyd e-bost Gareth Moriarty Owen o Gyngor Gwynedd yn amlinellu eu gwaith, a bod croeso I unrhyw un ddanfon cyfeiriad I mewn at eu rhestr. Nodwyd 6 Mawddwy Cottages, Minllyn fel eiddo oedd yn wag ers 17 mlynedd.

h) **Hysybysfwrdd Mallwyd/magnedau –** roedd Cyng Catrin Johnson wedi cael magnedau a'u dosbarthu. Roedd un hysbysfwrdd gan Lynn a chytunodd John P Jones a Catrin Johnson I fod yng ngofal ei atgyweirio a'i osod.

i**) Coed yn Eglwys Llanymawddwy** – roedd y coed yn gor-dyfu ac roedd angen tacluso a chlirio mwswg y llwybr – dywedodd Cyng John P Roberts y byddai yn trefnu I gael amcangyfrif gan Tegid Humphreys erbyn tro nesaf. Yn y cyswllt hyn, darllenwyd lythyr gan Margaret Hughes Tyucha yn rhoi gwybodaeth am lanhau a chlirio mwsog o'r llwybr. Dywedodd Cyng Catrin Johnson y byddai hi ac Andrew yn gwneud y gwaith ar y llwybr I glirio mwswg, a hefyd codi gwair/pridd lle roedd angen. Diolchwyd yn fawr iawn am hyn.

j) **Cyfleusterau i blant dros 7 oed yn y Dinas –** trafodwyd ymhellach ar ol y tro diwethaf, a chytunodd Cyng Wyn Lewis a Catrin Johnson gydweithio ar hyn. Roedd angen mwy o eglurhad ar drosgwlyddo darn o dir yn Lawnt y Plas, a mynegwyd barn glir na ddylid fod yn derbyn arian gan y Weinyddiaeth Amddiffyn yn y cyswllt yma.

i) **Ysbwriel A458** – roedd gohebiaeth wedi ei ddanfon I'r Cyngor yn y cyfarfod diwethaf yn dwyn sylw i sbwriel ar yr arhosfan ar yr A458 cyn Mallwyd, ac yn gofyn a fyddai modd cael bin yno. Y tro diwethaf, roedd pryder wedi ei fynegi y byddai hyn yn arwain at fwy o sbwriel yn y pendraw, a bin ddim yn cael ei wagu. Roedd yr arwydd a gynnigiwyd yn cyfeirio at finiau felly ddim yn addas. Roedd cais wedi ei wneud am arwyddion eraill mwy perthnasol I'r safle.

i) **Etholaid Cyngor Cymuned 2022**– darllenwyd ymateb Iwan Evans, Cyfreithiwr Cyngor Gwynedd yng nghyswllt ward Llanymawddwy a oedd yn dweud *'nodwyd fod 25 "dim pleidlais" yn y cyfrif sef papurau oedd yn cynnwys ond un bleidlais a felly ddim yn annilys. Nodwyd hyn fel DP ar y pryd'*

j) **Wal mynwent Mallwyd** – Roedd e-bost i law gan Cyng Arfon Hughes ac roedd y Clerc wedi siarad gyda Cyng Geraint Morgans. Roedd e-bost Arfon yn son am berchennog y tir tu ol I wal y fynwent a Plas Uchaf, a hefyd son am goeden Ywen sydd a changhennau dros ei dir ac yn gofyn os oedd modd eu torri. Roedd yn dweud ei fod wedi son wrtho am gysylltu gyda Rhydian Roberts o'r Parc Cenedlaethol am gyngor. Yn dilyn trafodaeth, gwelwyd fod rhaid cael cyfarfod ar y safle.

5. **Materion Cynllunio**

   Nid oedd unrhyw faterin cynllunio I law.

6. **Materion Cyllid.**

Nodwyd balansau cyfrifon y Cyngor (01/06/2022), sef Cyfri Cyfredol £5641.63, Cyfri Claddedigaeth £2301.78 Cyfri Cadw £768.74.

Cytunwyd ar gydnabyddiaeth chwarter cyntaf y Clerc, sef £435.15, ynghyd a HMRC £108.60.

Aethpwyd drwy yr holl daliadau a wnaethpwyd hyd yma yn y flwyddyn ariannol 2022-23, gan restru y costau oeddd yn debygol o wynebu y Cyngor o'r gyllideb.

Gofynnwyd a fyddai modd i'r Cyngor wneud taliadau BACS, a byddai y Clerc yn edrych i mewn i hyn.

Trafodwyd bod hyfforddiant Cynghorwyr yn mynd i fod yn fwyfwy pwysig i'r dyfodol, a chytunwyd yn y cyswllt yma fod yn gyfrifoldeb ar Gynghorwyr i dalu eu hunain os nad oedd modd eu cael yn rhad ac am ddim.

**7.Gohebiaeth.**

a) Darllenwyd gynnwys e- bost gan Gyngor Gwynedd ynglyn ag **Ymgynghoriad teithio Llesol** – roedd hwn wedi ei ddanfon allan I Gynghorwyr arwahan. Roedd llwybr rhwng Dinas a Mallwyd ynddo, gan gynnwys draw at y fynwent. Roedd yn bwysig fod pawb yn ymateb yn rhoi cefnogaeth I hyn, gan gynnwys y Clerc ar ran y Cyngor Cymuned. Roedd y mater yma wedi bod dan sylw gan y Cyngor

Cymuned o'r blaen. Yn y cyswllt hyn hefyd, cyfeiriwyd at lythyr I law gan Iwan Jones (Caerdydd) yn dwyn sylw I ddiffyg llwybr troed I fynwent Mallwyd.

b) Cyfeiriwyd at **Ymgynghoriad Cynllun Gwella Hawliau Tramwy Cyngor Gwynedd** – a oedd wedi ei ddanfon allan I Gynghorwyr arwahan. Y dyddiad cau oedd y 12fed o Fedi, a gofynnwyd I bawb ei ddarllen erbyn y cyfarfod nesaf ac adrodd yn ol fel y gelllir rhoi ymateb ar ran y Cyngor Cymuned.

c) Nodwyd fod '**Canllaw Cynghorydd da' gan Un Llais Cymru (**fersiwn newydd) wedi ei ddanfon i bob Cynghorydd ar y 25/06/22, ac roedd yn bwysig fod pawb yn edrych arno.

d) Nodwyd e-bost 'Gweithdai Ardal Ni 2035' a chais I gael dau aelod o'r Cyngor Cymuned I fynychu digwyddiadau. Enwebwyd Cyng Catrin Johnson a Wyn Lewis.

e) Nodwyd lythyr Cyngor Gwynedd yn hysbysu am y torri gwair blynyddol ar briffyrdd ardal Mawddwy.

f) Nodwyd restr o sesiynau hyfforddiant gan Un Llais Cymru – a oedd wedi ei ddanfon I bawb, ac bod yn bwysig fod Cynghorwyr yn cymryd mantais o hyn.

g) Dosbarthwyd ffurflenni 'Hysbysiad o fuddiant personol' (fersiwn newydd) i bawb o'r Cyngorhorwyr.

**12. Unrhyw Fater arall.**

a) Nodwyd fod gwrych yn gor-dyfu ger depot Cyngor Gwynedd ger Dolbont.
b) Roedd y ffordd rhwng Dolbrodmaeth a Frongoch wedi cau ac angen sylw.
c) Roedd yna dyllau yn y maes Parcio yn Lawnt y Plas.
d) Nodwyd cwynion unwaith eto am y coed uchel ar Dol y Bont a oedd angen eu torri. Cyfeiriwyd ar addewid a gafwyd gan Dyfrig Siencyn, Arweinydd Cyngor Gwynedd mewn cyfarfod yn Aberangell rai blynyddoedd yn ol, a bod angen atgoffa o hyn.
e) Roedd pryder am dyllau yn y ffordd at yr Eglwys yn Mallwyd, a bod angen dwyn sylw Cyngor Gwynedd unwaith eto.
f) Atogoffwyd eto yr angen i ledu y man troi yn Minllyn, ac hefyd bod angen arwydd 'Dim ffordd trwodd' ger y Buckley i rwystro cerbydau rhag mynd i gyfeiriad Minllyn.
g) Roedd cwynion fod cerbydau yn troi fewn i Lawnt y Plas yn llawer rhy gyflym, ac roedd angen ffordd o atal hyn. Awgrymwyd fyddai modd cael 'bumps' neu ddull addas ar y ffordd i'w harafu.
h) Roedd angen torri gwair ar gomin Dolybont, a chytunodd y Cyng John P Jones i wneud hyn. Diolchwyd yn fawr iawn iddo.
i) Roedd 3 o faterion wedi eu codi gan y Cyng Arfon Hughes drwy Cyng John P Roberts, sef y diweddaraf gyda'r llwybr o'r gofgolofn i Minllyn, Maes Parcio Lawnt y Plas a'r diweddaraf gyda'r Ty Hers.

**DYDDIAD CYFARFOD NESAF; NEUADD DINAS MAWDDWY, NOS FERCHER 31ain Awst 2022, 8.00yh.**

Daethpwyd a'r cyfarfod i ben am 10.00pm.